*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal**
**ar 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener 12 Mai 2023. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2023 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 12)**

**3. CYNLLUN GWEITHLE STRATEGAETH SWYDDFEYDD Y CYNGOR: ADDAS AT Y DYFODOL A MODEL GWEITHREDU A PHOLISI TREFNIADAU GWEITHIO CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gytuno ar Gynllun Gweithle Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor: Addas at y Dyfodol ar gyfer y cyfnod 2023-2030 a Model Gweithredu a Pholisi Trefniadau Gweithio y Cyngor.

**(Tudalennau 13 - 80)**

**4. RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn 2023-24 y Cyngor.

**(Tudalennau 81 - 98)**

**5. RHAG-GRAFFU: ARLWY'R GWASANAETHAU ORIAU DYDD – ANABLEDDAU DYSGU**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi adborth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned i'r Cabinet yn dilyn rhag-graffu ar Arlwy’r Gwasanaethau Oriau Dydd – Anableddau Dysgu yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2023.

**(Tudalennau 99 - 154)**

**6. CYFLEOEDD POSIBL I GREU MAN CYNNAL ACHLYSURON YCHWANEGOL YM MHARC COFFA YNYSANGHARAD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gymryd camau pellach o ran y cyfle ailddatblygu posibl i greu man cynnal achlysuron ym Mharc Coffa Ynysangharad fydd yn cefnogi gwaith cynnal achlysuron mawr a mynd ati i gyflwyno cais ffurfiol am gyllid i Raglen Pethau Pwysig Croeso Cymru.

**(Tudalennau 155 - 160)**

**7. CYNLLUN CREU LLEOEDD PONTYPRIDD – Y DIWEDDARAF AM BROSIECT PORTH Y DE**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi'r diweddaraf i Aelodau'r Cabinet am ddatblygiad prosiectau yn ardal Porth y De o Gynllun Creu Lleoedd Pontypridd; a'r camau arfaethedig nesaf.

**(Tudalennau 161 - 172)**

**8. Y DIWEDDARAF AM ADOLYGIAD YR AWDURDOD O'R STRATEGAETH RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi'r diweddaraf i Aelodau'r Cabinet am adolygiad yr Awdurdod o'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (LFRMS) a'r Cynllun Gweithredu diwygiedig (sef Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn flaenorol), fel sy'n ofynnol o dan Adran 10 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010; a rhoi gwybodaeth bellach i Aelodau am y rhaglen waith ddiwygiedig sydd ei hangen i adolygu'r LFRMS a Chynllun Gweithredu presennol, yn unol ag amserlen statudol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 173 - 182)**

**9. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF: ENWI'R YSGOLION NEWYDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi'r cyfle i'r Cabinet drafod argymhellion y cyrff llywodraethu dros dro mewn perthynas ag enwau ar gyfer yr ysgolion newydd sy'n cael eu creu yn rhan o gynigion trefniadaeth ysgolion Pontypridd.

**(Tudalennau 183 - 210)**

**10. YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I AD-DREFNU DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD – ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi cyfle i Aelodau'r Cabinet drafod cynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu prif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 211 - 286)**

**11. ACHREDIAD CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet o ran gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a cheisio cymeradwyaeth i gyflwyno cais i ddod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig.

**(Tudalennau 287 - 292)**

**12. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraffau 14 ac 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**13. Y DIWEDDARAF MEWN PERTHYNAS Â STRATEGAETH GOFAL PRESWYL 2022 I 2027: PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am gynlluniau'r Gwasanaethau i Blant i leihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau 'Gweithredu heb Gofrestru (OWR)' yn rhan o Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl 2022 i 2027: Plant sy'n Derbyn Gofal.

**(Tudalennau 293 - 300)**

**14. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Roger Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol